# Cwmni













Mis Mawrth 2018 80c

# Rhifyn 200

# Cwmni

## PWYLLGOR, SWYDDOGION a DOSBARTHWYR

*Ariennir yn rhannnol gan **Lywodraeth Cymru***

**Cadeirydd:** Robert Dutt

**Ysgrifennydd Cofnodion:** Ann Lewis

**Trysorydd:** Eyron Thomas e.thomas99@btinternet.com

**Ysgrifennydd:** Marian Fairclough faircloghme@aol.com 02920 885151

**Golygydd:** Ben Jones benamary2000@yahoo.co.uk 02920 862428

**Golygydd Lluniau a Dosbarthu:** Mary Jones

**Hysbysebion:** Huw Rowlands, Menter Iaith

**Ieuenctid:** Bethan Mair Jones, Menter Caerffili a Morgan Roberts, Prosiect Llais

**ebost:** golygydd@papurcwmni.cymru

**Gweplyfr/Facebook:** Papur Bro Cwmni

**Gwefan:** mentercaerffili.cymru

**Cynorthwydd:** Jan Penney

**Argraffwyr:**
Tower Print (Caerffili), Uned 12a, Ystâd Ddiwydiannol Tŷ Bedwas,Caerffili, CF83 8DW

**Dosbarthwyr:**
**Achubwn ar y cyfle hwn i nodi'r gwaith diflino mae'r criw o ddosbarthwyr yn cyflawni mis ar ôl mis a hynny ers nifer o flynyddoedd**

Tref Caerffili: Meirion Powell
Pen y Cwm: Gwilym ac Eirlys Thomas
Canol y Cwm: Gwyn Thomas
Bargoed: Byron Shyde
Penpedairheol: Eyron Thomas
Tonyfelin: Ann Lewis
Bethel: Eyron Thomas
Ene'rglyn: Jan Turner
Courier: Jackie Evans
Penyrheol: Denzil John
GorllewinCaerffili: Dorothy Morgan
Ysgol Gyfun Cwm Rhymni: Beca Rees
Ysgol Gymraeg Caerffili: Marian Rees
Dwyrain Caerffili: Huw Jackson
Watford: Heulwen Jones
Sant Martin: Nia Parsons
Lôn y Llyn: Wilma Davies
Parc y Castell: Alun Morton
Post: Dafydd Islwyn

**Pwyllgor:**
Eirlys Thomas, Dafydd Islwyn, Gareth Williams, Dilys Williams, Tamsin Graves a'r swyddogion uchod

**Croesawir erthyglau gan unrhyw un ond iddynt gyrraedd desg y Golygydd cyn 20fed diwrnod y mis cyn cyhoeddi.**

Cedwir yr hawl i olygu unrhyw erthygl neu lythyr cyn iddo ymddangos yn y papur.
Gwneir hyn ar sail hyd a chynnwys pob darn a lluniau yn yr un modd.

*Canolfan y Glowyr (Yr Hen Ysbyty), Caerffili*

# 200

## DATHLU DAU GANFED

**RHIFYN EIN PAPUR BRO**

**Sioned Williams a'r Parchedig Denzil John**

**Arloeswyr papurau bro'r Sir**

**Nos Wener, 9fed o Fawrth am 7:00 yr hwyr**

Adloniant: Rhiannon Dutt (Telyn) ac Iwcs

*Bwffe a Mynediad yn Rhad ac am Ddim*

CROESO CYNNES I BAWB

Cysylltwch â Marian Fairclough ar faricloughme@aol.com cyn Mawrth 2ail

## DYDDIADAU EISTEDDFODAU'R URDD 2018

**Eisteddfod Cylch Llanofer**

Dydd Sadwrn 10 Mawrth 2018 — Ysgol Gyfun Gwynllyw.8 yb

**Eisteddfod Cylch Cwm Rhymni**

Dydd Sadwrn 10 Mawrth 2018 — Ysgol Gyfun Cwm Rhymni. 8yb

**Eisteddfod Rhanbarth Uwchradd**

Prynhawn Iau 15 Mawrth 2018 — Ysgol Gyfun Cwm Rhymni. 3.30yp

**Eisteddfod Rhanbarth Cerdd Dant, Offerynnol a Dawns (Cynradd ac Uwchradd)**

Nos Iau 22 Mawrth 2018 — Ysgol Gyfun Cwm Rhymni. 3.30yp

**Eisteddfod Rhanbarth Cynradd**

Dydd Sadwrn 24 Mawrth 2018 — Ysgol Gyfun Cwm Rhymni. 8yb

**Beirniadu Cystadlaethau Celf a Chrefft.**

Nos Wener 27 Ebrill 2018 — Neuadd y Methodistiaid, Y Coed Duon. — Amser i'w gadarnhau

**Arddangosfa Celf a Chrefft**

Sadwrn 28 Ebrill 2018 — Neuadd y Methodistiaid, Y Coed Duon. — 9yb – 2yp

**DYDDIADAU CAU AR GYFER COFRESTRU I GYSTADLU**

**CYNRADD:** Dydd Mawrth 27 Chwefror — **UWCHRADD:** Dydd Mawrth 06 Mawrth 2018

# Addysg i Ferched


**gan Dr Elin Jones**

Ym mlwyddyn dathlu canmlwyddiant rhyddfreinio rhai menywod, addas yw cofio mor bwysig oedd addysg yn y broses o godi ymwybyddiaeth y cyhoedd o botensial menywod i wneud mwy na chadw tŷ a magu plant. Roedd yn broses hir – wedi'r cyfan, fe fydd rhai o ddarllenwyr *CwmNi* yn cofio adeg pan oedd dysgu crefftau mewn ysgolion wedi ei rannu yn ôl eich rhyw – a'r cwyno pan newidiodd hynny!

Datblygiad diweddar iawn oedd hwnnw, ac yn dilyn canrif a hanner o ymdrechion i wella addysg yn ein cwm. Pan fu farw Edward Lewis yn ddyn ifanc cyfoethog ym 1728, gadawodd arian i sefydlu ymddiriedolaeth er mwyn codi ysgol, talu ysgolfeistr, dilladu a phrentisio pymtheg o fechgyn tlawd o blwyf Gelligaer. Doedd dim sôn am addysgu merched. Ym marn pobl y cyfnod hwnnw, byddai pob merch yn derbyn digon o addysg gan ei mam i'w galluogi i gadw tŷ a magu teulu – neu, os byddai mor anffodus â pheidio priodi, i gadw tŷ a magu teulu rhywun arall.

Dyna oedd yr agwedd tuag at addysg merched ers canrifoedd lawer. Dyna hefyd oedd barn cymdeithas yn gyffredinol am lawer o flynyddoedd wedyn. Eithriadau prin – a chyfoethog iawn – oedd y teuluoedd a roddai addysg fwy academaidd i'w merched. Serch hynny, ym 1836 ystyriodd ymddiriedolwyr Ysgol Lewis dderbyn merched i'r ysgol, ond y rheswm am hynny oedd lleihad yn y nifer y bechgyn oedd am fanteisio ar addysg yn hytrach nag uchelgais eangfrydig i ehangu gorwelion merched yr ardal.

Wrth i weithfeydd glo yr ardal ddatblygu, cynyddodd incwm yr ymddiriedolwyr yn ddirfawr. Erbyn 1853 roedd digon o arian ganddynt i adeiladu ysgol newydd mwy o faint ym Mhengam, a gadael yr hen adeilad yng



Ngelligaer. Yn Ysgol Lewis Pengam cynigiwyd addysg i ryw 150 o fechgyn – a 100 o ferched! Er taw addysg elfennol yn unig a geid yn Ysgol Lewis o hyd, roedd cynnig unrhyw fath o addysg ffurfiol i ferched yn flaengar iawn yn y cyfnod hwn.

Pan sefydlwyd cyfundrefn addysg elfennol orfodol i bawb yn dilyn Deddf Addysg 1870, penderfynodd ymddiriedolwyr Ysgol Lewis y dylid cynnwys pynciau mwy academaidd yng nghwricwlwm yr ysgol. Yna, pan ddaeth Deddf Addysg Ganolraddol Cymru i rym ym 1889, daeth Ysgol Lewis Pengam dan reolaeth Cyngor Sir Morgannwg fel ysgol ramadeg a gynigiai baratoad ar gyfer addysg uwch. Pan agorodd Lloyd George adeiladau newydd yr ysgol ym 1905, cyfeiriodd at botensial Ysgol Lewis i Fechgyn i ddatblygu'n 'Eton' Cymreig.



***Ysgol Ramadeg Lewis i Ferched yn Hengoed***

# Posau'r Plant

**gan Mary Jones**







Ydych chi'n gallu dod o hyd i'r DEG gwahaniaeth rhwng y ddau lun yma sy'n dathlu'r

Mae enw UN GAIR ar DDEG yn ymwneud â'r papur bro wedi'u cuddio yn y Chwilair.

Ble maen nhw?

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| N | E | W | Y | DD | I | O | N | N |
| O | U | A | S | O | P | E | W | H |
| I | Y | DD | I | N | Y | S | U | Y |
| L | G | O | L | I | O | R | A | S |
| O | N | C | E | R | DD | I | L | B |
| G | LL | U | P | N | I | A | G | Y |
| S | E | N | A | H | U | M | Y | S |
| Y | N | T | C | E | R | H | TH | Y |
| S | U | A | I | N | U | LL | R | B |
| Y | S | C | M | E | N | T | E | R |

POSAU
ERTHYGLAU
CAPELI
YSGOLION
HANES
NEWYDDION
LLUNIAU
CERDDI
HYSBYS
URDD
MENTER

Mae'r atebion ar waelod Colofn y Dysgwyr ar dudalen 17

## Addysg i Ferched (parhad)

A beth am y merched? Ym 1901 agorwyd Ysgol Ramadeg Lewis i Ferched yn Hengoed, gan gynnig addysg academaidd i ferched tebyg i'r hyn a geid yn ysgol y bechgyn. Sylfaen yr ysgol newydd hon oedd ysgol uwchradd i ferched a agorwyd ym Mhontlotyn ym 1883 dan nawdd Ymddiriedolaeth Lewis.

Erbyn dechrau'r ugeinfed ganrif roedd llawer o ysgolion tebyg i'w cael ar hyd a lled y wlad, i gyd yn cynnig cyfle i ferched fynd ymlaen at addysg uwch, at yrfa broffesiynol a bywyd annibynnol y tu allan i'r cartref. O'r ysgolion hyn y daeth y menywod oedd yn ddigon hyderus i fynnu'r bleidlais, ac i herio'r rhagfarnau oesol yn erbyn galluoedd hanner y boblogaeth i wneud rhywbeth ar wahân i fagu teulu a chadw tŷ.....

# TEULU de CLARE

Roedd y teulu de Clare yn enwog yng Nghymru.  Maent yn rhan bwysig o'n hanes, roeddent yn ddisgynyddion Geoffrey de Brionne, oedd yn fab anghyfreithlon hynaf Richard I.

Yn 1183 daeth Morgannwg yn arglwyddiaeth fwyaf a phwysicaf y gororau, o dan ofal Richard, chweched Iarll de Clare.

Bu farw Richard yn 1217, a phasiwyd yr ystadau i'w fab Gilbert, y seithfed Iarll de Clare.  Gwrthododd penaethiaid Cymreig yr ardal ei dderbyn fel eu penarglwydd, felly er mwyn helpu sefydlu rheolaeth mewnforiodd Gilbert denantiaid o'i faenorau Saesneg.  Ymatebodd y Cymry (o dan arweiniad Morgan Gam Afan) trwy gynnal nifer o gyrchoedd ar ffermwyr-denantiaid deClare.



*Ffenestr wydr lliw yn Abaty Tewkesbury yn dangos yr Arglwydd Gilbert de Clare*

Yn 1228 cyrhaeddodd Gilbert de Clare Forgannwg gyda nifer fawr o farchogion o'r maenorau Seisnig.  Yn ddiweddarach y flwyddyn honno, cipiodd e Morgan a chymerodd ef i Loegr a'i garcharu yng Nghastell Clare.

Daeth Hywel ap Maredudd, cefnder Morgan Gam, yn arweinydd newydd y Cymry, a pharhaodd yr ymosodiadau ar aneddiadau Normanaidd ym Morgannwg.

Yn 1229 rhyddhawyd Morgan Gam ar ôl cytuno termau heddwch â Gilbert de Clare.  Ar ôl marwolaeth Gilbert ailgydiodd Morgan Gam yn ei ymgyrch filwrol yn erbyn y Saeson ym Morgannwg.

Roedd Richard, mab hynaf Gilbert, yn wyth mlwydd oed pan fu farw ei dad, ond ni chymerodd fawr o ddiddordeb mewn materion Cymreig nes iddo droi'n 21 oed.

Yn 1243 daeth i Gymru gyda'i farchogion, roedd yr ymgyrch filwrol yn llwyddiannus, ac roedd e'n gallu ehangu ei diriogaeth yng Nghymru.

Erbyn 1245 roedd Richard yn rheoli Llanbleddian, Talyfan a Ruthin, ac er mwyn cryfhau ei afael ar yr ardal, adeiladodd e gastell newydd yn Llantrisant. Y flwyddyn ganlynol ychwanegwyd Brynbuga a Chaerleon at ei diroedd.

Pan fu farw Richard yn 1262, roedd ei fab Gilbert Goch yn ddyn dibrofiad 19 mlwydd oed, a chymerodd y penaethiaid o Gymru (o dan arweiniad Gruffydd ap Rhys) fantais o'r cyfle hwn i geisio ennill Morgannwg yn ôl o'r teulu Clare.

Daliwyd Gruffydd gan Gilbert ac fe'i carcharwyd yng Nghaerdydd.  Yn ddiweddarach, cludwyd e i Iwerddon lle'i cadwyd yng Nghastell Clare.

Yn 1270 cytunodd Gilbert Goch i fynd gyda Harri III ar grwsâd i Balestina, ond ychydig cyn iddo adael, clywodd e fod Llewelyn ap Gruffydd wedi cipio a dinistrio Castell Caerffili; o ganlyniad, yn lle mynd i Balestina, daeth e a'i farchogion i Gymru.

Enillodd e Gaerffili nôl a phenderfynodd e adeiladu caer enfawr o gerrig, a fyddai'n amhosibl ei chipio.  Pan gwblhawyd y castell ym 1272 fe'i hystyriwyd y castell cryfaf ym Mhrydain. Adeiladwyd Castell Caerffili i ddiogelu'r ardal gan ei atal rhag syrthio i ddwylo Llewelyn.

Roedd tref wreiddiol Caerffili yn anheddiad de Clare, wedi ei lleoli ychydig i'r de o'r castell. Mae adeiladau yng Nghaerffili heddiw yn dwyn yr enw de Clare.

Phyllis Thomas
*Dysgwraig  uwch hyfedredd Cymraeg Coleg Gwent.*

## Barddoni, Siocled a dathlu!

Mae cwmni siocled masnach deg, **Divine**, a **Cymorth Cristnogol** yn cynnal cystadleuaeth farddoni am y 16eg mlynedd o'r bron. Y nod yw codi ymwybyddiaeth disgyblion ysgol am fyd siocled, ffermwyr coco a Masnach Deg, a hynny drwy danio'ch dychymyg a'ch creadigrwydd drwy gyfansoddi barddoniaeth. **Casia Wiliam**, Bardd Plant Cymru 2017-2019, sy'n beirniadu'r gystadleuaeth Gymraeg a **Cas Lester** sy'n beirniadu'r gystadleuaeth Saesneg.

Ymhlith y gwobrau sydd i'w hennill mae ffilm o'ch cerdd fuddugol yn cael ei darllen gan feirniaid y categori, Siocled Divine a thalebau llyfrau.

Dyma gyfle arbenning i gyfuno barddoniaeth a chodi ymwybyddiaeth am Fasnach Deg. Eleni galwn am gerddi ar y thema "Dathlu Sioceld Divine". Dyddiad cau'r gystadleuaeth yw 30ain o Ebrill 2018 felly dyma gyfle gwych i ysgolion, clybiau ieuenctid, teuluoedd neu grwpiau dysgu Cymraeg neilltuo gwers neu sesiwn yn ystod **Pythefnos Masnach Deg** (26ain o Chwefror – 11eg o Fawrth) er mwyn ysgrifennu campweithiau barddonol! Cewch ddarganfod sut i ymgeisio ar y wefan hefyd.

Mae tri chategori i'r gystadleuaeth eleni sef 7 i 11 oed; 12 i 16 oed; 17 oed ac oedolion sy'n dysgu Cymraeg.

Plis rhannwch fanylion y gystadleuaeth yn eang, gydag athrawon, eich ysgolion lleol, clybiau ieuentid, teuluoedd a grwpiau dysgu Cymraeg!

I dderbyn manylion cystadlu, ewch i www.divinechocolate.com/poetry neu ebostiwch Cynan Llwyd cllwyd@cymorth-cristnogol.org



*Casia Wiliam, Bardd Plant Cymru 2017-2019. © Sioned Birchall*

# Enillwyr Arlunio Caerffili

Cyflwynodd Maer Caerffili, y Cynghorydd Simon Morgan, wobrau yng nghystadleuaeth Arlunio Agored y Galeri yn y dref.



Aeth gwobr gyntaf o £750 yn y Galeri ar Y Twyn, Caerffili, i ddarlithydd sydd wedi ymddeol, Ian Fisher, o Lanelli am ei ddarn "Blodeuwedd and Pedigree Moon". Enillwyd yr ail wobr o £250 gan Haf Weighton o Gaerdydd am "Spillers". Enillwyd dewis yr ymwelwyr, gwobr o £50, gan Lorraine Howells o Drefforest.

Roedd 200 wedi cystadlu gyda 12 yn derbyn clod uchel. Cyngor Tref Caerffili oedd yn noddi'r gwobrau.

Dywedodd y Cynghorydd Simon Morgan: "Efallai mai Cyngor y Dref sy'n noddi'r digwyddiad ond mae'r clod yn perthyn i berchnogion Y Galeri, Jan a Gareth Pennell am eu gwaith caled.

"Mae'r gystadleuaeth yn denu cystadleuwyr o hyd a lled y DU a bu o gymorth i nifer o artistiaid i gychwyn eu gyrfaoedd, felly rydym yn falch o fod yn gysylltiedig â'r digwyddiad a dymunwn weld eu llwyddiant yn parhau."

# Oedfaon y Capeli ym Mis Mawrth

**Bedyddwyr Tonyfelin**

| | |
|---|---|
| 4ydd | Trwy'r dydd : Parch Milton Jenkins |
| 11eg | Trwy'r dydd : Parch Milton Jenkins |
| 18fed | Ym Methel |
| 25ain | 10.30 : Parch Geoffrey Williams |
| | 6.00 : Mr Ian Smith |

**Capel y Groeswen**

11eg Mr Neil Linton a'r Teulu

**Annibynwyr, Bethel**

| | |
|---|---|
| 4ydd | 10.30 Parch Andrew Jones |
| 11eg | 10.30 Parch Dafydd Henri Edwards |
| 18fed | Trwy'r dydd : Parch Robert Owen Griffiths |
| 25ain | Yn Nhonyfelin |

**Bedyddwyr Penuel, Rhymni (6:00 yh)**

Mr Geoff Leyshon

Parch Aled H. Thomas

Mr Ray Lewis

Parch Gwilym Dafydd




## *Adolygiad Mary Jones*

Dyma lyfr a achosodd dipyn o adwaith gan wrth bob un o'r Grŵp Darllen yn llyfrgell Caerffili yn ystod mis Chwefror. Doedd "Abermandraw" yn sicr ddim at ddant pawb.

Weithiau wrth ddarllen unrhyw lyfr, rhoi'r ffidil yn y to yw'r peth hawsaf ,ond mae'n rhaid bwrw ymlaen tuag at y diwedd yng nghyfrol y mis er mwyn gallu ei thrafod. Ac ambell waith mae'r frwydr yn werth yr ymdrech. Gyda llai na chant a hanner o dudalennau roedd hi'n dal i fod yn frwydr. Roeddwn i'n teimlo dim byd yn tynnu fi ymlaen tuag at y bennod nesaf.

Hanes yw'r llyfr am un diwrnod gwlyb o Dachwedd yn nhref Abermandraw. Mae yna gyfres o bortreadau o'r amryw drigolion, a phob un yn ystyried mynd i angladd.

Wrth i'r darllenwr gwrdd â phob un cymeriad mae llun yn datblygu o dref sydd â haenen o is-fywyd, pobl sy wedi colli'r awydd i godi i lefel uwch. Mae yma gasgliad o bobol sydd â gwendid, nam neu dostrwydd mewn rhyw ffordd neu'i gilydd. Mae gan y rhan fwyaf ohonynt ffugenw - "Slender Len", "Deio Llŷn", "Marsipan Morris", "Dickie Bo Tei". Ac roedd sawl un o'n darllenwyr yn gweld hiwmor yn y portreadau, fel rhyw fath o "Dan y Wenallt" cyfoes.



Yn rhifyn Ionawr "Y Traethodydd" mae Guto Dafydd yn dweud yn y paragraff olaf, "Dyma nofel a chwyswyd drosti, un lle mae cymaint o ofal wedi mynd i'r rhegfeydd a'r gwawdio lliwgar â'r athronyddu du, barddonol. Ond rhagoriaeth fawr *Abermandraw* yw ei chydwybod cymdeithasol: mae'n tymheru dirmyg at y cymeriadau â chydymdeimlad atynt, ac mae'r llyfr yn llawn o ddicter cyfiawn ynghylch y prosesau sy'n condemnio pobl i fyw fel hyn."

Dyw delwedd Abermandraw ddim yn ffafriol o gwbl. Mae adroddwr yr hanes yn ddyn ifanc sy'n ystyried hunanladdiad ac yn meddwl pwy fydd yn dod i'w angladd. Gyda'r afon Braw yn treiglo drwy'r dref gan wlychu popeth ynghyd â'r glaw di-baid, ydy hiwmor yr awdur yn ddigon i ysgafnhau'r anobaith llwyr? Beth am ddarllen y llyfr i weld beth y'ch chi'n feddwl? Mae copïau ar gael gan lyfrgelloedd y Sir.

Mis nesaf bydd "Dan Ei Adain" John Alwyn Griffiths dan y chwyddwydr. Dewch i ymuno â ni i wrando ac i gymryd rhan. Mae'na groeso i bawb.

**Mae nifer yn derbyn y papur bro yn fisol dros y We. Mae yna fanteision.......**

- **Byddwch yn derbyn eich papur yn syth.**
- **Byddwch yn gweld pob un dudalen mewn lliw.**
- **Byddwch yn arbed papur.**

**Gyrrwch eich cyfeiriad ebost at y Golygydd, does angen gwneud dim byd mwy!**

## **Taith bwced 2:** *Gareth W.Williams*

(Beth arall wnewch chi ar fore Mawrth glawog) y




Os ydych chi wedi ymddeol fel fi, gallwch chi anturiaethu i leoliadau egsotig. Gwn fod yr anturiaeth ddiwethaf ar awyren i Sir Fôn wedi bod yn ysbrydoliaeth heintus i lot o bobol, wel, o leiaf un. Dyma hanes anturiaeth arall fydd yn tynnu dŵr o'ch dannedd ac yn gwneud i chi ryfeddu at y beiddgarwch.

Oedd, roedd hi'n fore Mawrth oer Mis Chwefror diwethaf; y man cychwyn oedd Nancy's Cafe yn Ystrad Mynach (uchod); egsotig neu be?! Roedd fy nghydymaith glew, Clwyd, a minnau am ddal y trên chwarter i ddeg o'r orsaf gerllaw, ac wedi bwyta'n fras o fraster dyna a wnaethom. Diwedd ein taith fyddai Pwllheli. 'Wow,' clywaf chi'n dweud.

Rhag ofn nad oeddech chi'n gwybod: os ydych chi dros 55 oed ac am deithio ar y trên i unrhyw le yn Nghymru, a dod yn ôl o fewn yr wythnos, gallwch wneud hynny am £27 ar adegau llai prysur y flwyddyn. 'Pwllheli plîs,' meddai fi wrth y gwerthwr tocynnau yn ei gwt ar yr orsaf. 'O,' meddai yntau. Cododd ei ben ac edrych arna i braidd yn amheus. Dangosais fy mhas bws rhag ofn nad oedd o'n credu mod i dros 55 oed. 'OK,' meddai wedyn. Gallai weld ei'n bod ni'n deithwyr profiadol o fri. Derbyniais fy nhocyn ac i ffwrdd â ni yn dalog at y platfform.

Fel y gwyddoch mae'n siŵr, dydy trenau Arriva i Gaerdydd ddim y rhai mwyaf moethus ond hei, beth oedd ots, roedden ni ar bererindod bell, gyda'n cyd-deithwyr bid siŵr ond ar berwyl siopa neu waeth, waith **ach**!!!! Rhaid oedd newid yng Nghaerdydd i ddal trên tipyn mwy moethus tua'r gogledd i'r Amwythig draw. Mae gan drenau canolbarth Cymru ryw naws deuluol unigryw. Wn i ddim os deil hwnnw pan ddaw diwedd ar hawliau Arriva ar y leiniau. Mae'r gorsafoedd ar y ffordd yn gartrefol wedi i chi basio Casnewydd, hyd yn oed y rhai yn Lloegr yn Llanllienni (Leominster) a Llwydlo. Yn ôl y dyn yn gwthio ei droli bwffe drwy'r cerbydau gallwn brynu 'roast albatross' a 'snake oil' ganddo. Gofynnais am 'snake oil' ond y cwbwl ges i oedd paned o de a Kit-Kat. Rhaid oedd newid eto yn yr Amwythig. Dyna ble roedd yr antur yn dechrau go iawn i mewn i berfeddion Gwalia ar drên cyffelyb i drenau'r cymoedd ond roedd hindda wedi dod a'r haul yn tywynnu.




Pan gyrhaeddwch chi Dyfi Junction (yr orsaf drenau leiaf prysur ym Mhrydain, greda i) mae'r trên yn rhannu'n ddwy; y rhan ôl yn mynd i Aberystwyth a'r rhan flaen yn mynd i'r gogledd dros aber afon Mawddach. Am ryw reswm roedd newid yn y drefn ar y diwrnod hwnnw. Merch landeg oedd ein giard a sicrhaodd ein bod ni yn y cerbyd cywir er mwyn cwblhau ein taith yn llwyddiannus. Yn anffodus ni ddywedwyd wrth yrwyr y ddwy ran fod newid wedi bod yn y drefn a phrysuro ymlaen yn ôl eu hen arfer ond i'r cyfeiriad anghywir yr achlysur hwn wnaethon nhw. Yn ffodus, chyrhaeddon ni mo Aberystwyth cyn iddyn nhw sylweddoli eu cam .



Rhaid oedd bagio ar ôl rhyw chwarter milltir i gyfnewid, i'n rhoi ni yn ôl ar y cledrau iawn a phawb yn hapus, gan gynnwys y giard oedd yn cael ei harolygu ar y diwrnod hwnnw. Nododd yr arolygwr rywbeth ar ei glipfwrdd ysywaeth.

Ymlaen â ni ar hyd yr arfordir trawiadol yn yr haul, trwy Harlech a'r Bermo. Wrth gasglu a gollwng teithwyr ar hyd y ffordd cewch gip ar sut mae bywyd yn gweithio mewn ardaloedd fel Tonfannau a Llwyngwril, mannau mae gweddill y byd wedi anghofio amdanynt: plant o'r ysgol, pensiynwyr o archfarchnad bellennig a rhai fel ni jest yn mynd am dro. Roedd y môr fel gwydr a'r olygfa wrth ddynesu at Minffordd dros yr aber i gyfeiriad Portmeirion yn fythgofiadwy.

'Sgiws me,' meddai Clwyd wrth y giard. 'How long will it be before we get to Aberystwyth?' Bron iddi sigo i'w phengliniau. 'Only joking,' meddai Clwyd. Roedd yr arolygwr y tu ôl iddi. Don't worry,' meddai hi yn cyfeirio at yr arolygwr. 'He's my husband and he wouldn't get his tea if he gave me a bad report.' Fel dwedais i, - naws deuluol i'r lein.

Mae'r lein yn cordeddu yn ei blaen i Borthmadog dros y Cob ac ymlaen tan i chi weld Castell Criccieth yn urddasol gyda bae Ceredigion yn gefndir. Mae terfyn y daith ond nid Pwllheli yn siom.



Ymlaen wedyn ar y bws i Nefyn a gwesty Nanhoron. Cwpwl o beints, bwyd a chysgu fel twrch ac edrych ymlaen at y siwrnai adref. Byddai George Borrow, Bradshaw a Michael Portillo yn browd.






Cymraeg yw Iaith ein Taith

Ysgol Gymraeg Trelyn





Chwedl Rhys a Meinir




Dyma'r hyn mae disgyblion Dosbarth Gelert eisiau darganfod am ddeinosoriaid



Gweithdy hedfan drôn Excaelo



Ymweld â Maenordy Llancaiach Fawr




## Meddwlgarwch

Y mynach byd enwog, Gelong Thubten, ddaeth i Drelyn i gyflwyno ap newydd Samten, Ap meddwlgarwch yw hyn, ac adran Samten Junior yn benodol ar gyfer plant. Mae Ysgol Trelyn yn un o ddwy ysgol yng Nghymru sydd yn treialu'r ap. Gyda iechyd meddwl erbyn hyn yn mynnu'r un sylw a iechyd corfforol, mae'r ap yn gwella sgiliau canolbwyntio ac hapusrwydd disgyblion. Mae'r ffaith bod hyn yn cael ei gyflwyno ar ffurf ap yn galluogi'r disgyblion i gael mynediad i ddulliau meddwlgarwch yn hawdd.



Daeth criw ffilmio Heno i'r ysgol i wylio sesiwn meddwlgarwch ac i drafod meddwlgarwch gyda'r disgyblion.

Dyma barn rhai o ddisgyblion Trelyn: 'Mae'r ap yn helpu fi ymlacio ac yn fy ngwneud yn hapus,' Zach.

'Wrth ddefnyddio'r ap dwi'n ymlacio ac yn anghofio am bopeth sydd o'm cwmpas' Madison.

# Ysgol Gymraeg Trelyn



Efelychu gwaith pa artist wnaeth y plant?




Arbrofion dwysedd










Plant Iau yn mwynhau datblygu sgiliau golff




## Darllen Dros Gymru




Y Bws Hud a'r Biliwnydd Bach oedd y ddau lyfr dan sylw wrth i ddisgyblion Trelyn gystadlu yn rownd sirol Darllen Dros Gymru yn ddiweddar.

Pedwar disgybl oedd ymhob tim gydag Isabel, Jac, Henry a Menna yn cynrychioli Blwyddyn 3 a 4 a Rhydian, Daniel, Isabel a Sophie-Ella yn ffurfio tim Bl 5 a 6. Taith hir oedd y daith i Ysgol y Castell, lleoliad y gystadleuaeth, ac nid oherwydd y traffig, ond oherwydd bwrlwm a chyffro'r disgyblion.




Cawsant lwyddiant haeddiannol wrth i'r disgyblion hŷn ddod yn ail wrth drafod y Biliwnydd Bach. Bydd disgyblion Bl 3 a 4 yn teithio i Aberystwyth yn ystod tymor yr haf i gynrychioli'r sir yn y rownd genedlaethol Darllen Dros Gymru ar ôl iddynt gipio'r wobr gyntaf.

Llongyfarchiadau gwresog i bob un ohonynt.

# Erthygl Patagonia - Rhan 2

*Wedi darllen Rhan 1 o stori'r daith i Batagonia gan Owain, dyma'r ail ran gan Joanna*

Ar ôl taith hir dros nos o'r Gaiman wedi i'r Eisteddfod orffen, cyrhaeddon ni Esquel, tref wedi ei hamddiffyn gan gopâu gwyn yr Andes wedi'i lleoli yng Ngogledd-orllewin Chubut.



Cawsom ni ddechreuad cyffrous gan brofi tymheredd rhewllyd Esquel yn syth a ninnau'n plymio i oerni'r dŵr gwyn wrth rafftio dŵr; a chael ein deffro'n sylweddol! Roedd hinsawdd Esquel yn llawer oerach na'r Gaiman, ac roedd rhaid cyfnewid ein siorts a chrysau llewys byr am siwmperi a throwsus yn go gloi!

Bob bore deffrom ni i wledd o nwyddau ffres o'r popty lleol - mynydd o fara a *tortas fritas* (bara wedi'i ffrio) wedi'i orchuddio mewn *dulce de leche*. Ar ôl llenwi ein boliau llwglyd, cerddom ni lawr i Ysgol y Cwm, ysgol gynradd fach ddwyieithog a gafodd ei hagor ddwy flynedd yn ôl i blant meithrin. Heddiw mae ganddynt tua 50 disgybl. Yn y pendraw gobeithir addysgu hyd at 200 o blant yno. Codwyd yr arian i adeiladu'r ysgol trwy werthu darnau o dir lleol; erbyn hyn mae'r rhan fwyaf o'r ysgol wedi'i chwblhau. Roedd y plant yn hoff o ganeuon Cymraeg, megis "Dau Gi Bach" a "Jac y Do" - profiad rhyfedd wrth ganu caneuon ein plentyndod hanner ffordd ar draws y byd.

Cynhaliom ni gyngerdd bach yng Nghanolfan Gymraeg yr Andes, gan ymgeisio i gyflawni dawnsfeydd gwerin; yn anffodus roedd ein cyd-drefniant yn llai na pherffaith! Yn hwyrach yn yr wythnos cynhaliom ni gyngerdd arall yn Ysgol y Cwm lle, yn ogystal â'n canu a'n perfformio, cawsom ni'r cyfle i wrando ar ganu swynol Alejandro Jones. Ei hen hen ddad-cu oedd John Daniel Evans, un o deithwyr gwreiddiol y Mimosa a adawodd Lerpwl 152 o flynyddoedd yn ôl.

Roedd y dyddiau'n llawn gweithgareddau, ac os nad oeddem yn cyflawni gweithgaredd roeddem ni'n cerdded yno; ac felly, roedd angen maeth arnom ni i gadw ein hegni a'n hysbryd yn uchel. Traflyncom ni un gwpanaid ar ôl y llall o hufen iâ melys ac adfywiol dros y pythefnos, roedd ystod o flasau ysblennydd ar gael a'r posibilrwydd o lenwi cwpanau gyda hyd at cilo o hufen iâ blasus.

Erbyn diwedd y daith roeddwn i'n arbenigwr am ofyn am gwpanaid o hufen iâ *dulce de leche* yn Sbaeneg!

Gobeithiom ni blannu coed yn y Parc Cenedlaethol *Los Alerces*, yn anffodus nid oedd hyn yn bosib, ond roedd y golygfeydd yn werth y daith hir lawr yr heolydd creigiog. Fel drych, adlewyrchai'r llyn anferth las diddiwedd yr awyr a'r mynyddoedd cawraidd o'i gwmpas.

Pe bai'r wledd o natur yma ddim yn ddigon i'n harchwaeth, teithiom ni wedyn i weld enfys o gae, wedi'i lenwi gydag un rhes ar ôl y llall o




diwlipau o bob siâp a lliw, wedi'i leoli o flaen mynyddoedd yr Andes. Roedd yr olygfa fel llun ar gerdyn post, ond fel mewn nifer o achosion anffodus, nid oedd ein lluniau'n medru gwneud cyfiawnder â hi.

Ar ein noson olaf ym Mhatagonia, derbyniom ni groeso cynnes yn ffermdy'r teulu Green. Bwytaom ni *asado* fel ein pryd olaf ym Mhatagonia; oedd yn ein hatgoffa o'n pryd cyntaf ar ôl glanio yn y Gaiman. Glafoeriom ni o'n seddi wrth weld yr *asado* yn cael ei goginio dros y tân, proses a gynhyrchodd gig wedi'i goginio i berffeithrwydd – yn ôl hen draddodiad *gauchos* yr Ariannin. Ers i'r Urdd ddechrau'r daith ddeng mlynedd yn ôl, mae'r teulu Green wedi bod yn agor eu cartref yn garedig i griw'r Urdd ar noson olaf y daith. Maent yn casglu baner yr Urdd bob blwyddyn, wedi'i llenwi ag enwau; yn yr un modd rydym ni'n casglu cofroddion o'r Ariannin, er mwyn eu hychwanegu i'r casgliad a'u harddangos unwaith eto'r flwyddyn nesaf.

Y diwrnod dagreuol nesaf teithiom ni nôl i Fuenos Aires, gan gychwyn y daith 17+ awr adref i Gymru; ein casys bach yn drymach, yn llawn trysorau tramor; potiau *mate*, te *yerba*, *dulce de leche*, a'n meddyliau'n llawn atgofion melys a ffrindiau newydd.

# Merched y Wawr Cwm Rhymni

## Sgwrs am Batagonia




Bu Owain Ash a Joanna Zajak, o Ysgol Gyfun Cwm Rhymni, yn ffodus iawn o gael eu dewis i fynd ar ymweliad â Phatagonia gyda'r Urdd yn yr hydref a daethant atom i'n cyfarfod cyntaf yn 2018 i ddweud yr hanes. Roedd 24 o bobl ifanc o wahanol ardaloedd ar hyd a lled Cymru yn y grŵp a deithiodd i'r Ariannin. Yn ogystal â lledu eu gorwelion, roedd yn gyfle arbennig i wneud ffrindiau newydd. Roeddent wedi cyfarfod fel grŵp ddwywaith cyn cychwyn ar y daith, unwaith yng Nglan Llyn a wedyn ym Mhentre Ifan ac felly wedi cael cyfle i ddod i adnabod ei gilydd. Hwn oedd y degfed tro i'r Urdd arwain grŵp ar ymweliad â Phatagonia.

Roedd y croeso'n frwd a llawer o weithgareddau wedi'u trefnu ar eu cyfer. Buont yn ymweld â'r ysgolion Cymraeg ac yn dysgu caneuon Cymraeg i'r plant. Cymraeg a Sbaeneg yw'r ieithoedd a siaredir yno, a dim Saesneg! Gan mai Owain oedd yr unig un a allai siarad Sbaeneg, penodwyd ef yn gyfieithydd y grŵp. Profiad swreal yn ôl Joanna oedd canu hwiangerddi Cymraeg gyda phlant bach mewn gwlad mor bell i ffwrdd o Gymru. Roedd mwy o ganu wrth iddynt gystadlu fel côr yn Eisteddfod y Wladfa. Buont mewn sawl *asada* - sef rhywbeth yn debyg i farbeciw yn yr Ariannin lle bydd cig eidion yn cael ei rostio a'i fwyta. Cawsant eu swyno gan fawredd mynyddoedd yr Andes a buont ar ymweliad â fferm lle tyfir aceri o flodau (*tulips)* - hyn yng nghysgod yr Andes.

Profiad bythgofiadwy oedd yr ymweliad i Owain a Joanna ac roedd eu brwdfrydedd yn heintus wrth iddynt adrodd yr hanes. Maent yn barod wedi gwneud trefniadau i gwrdd â'u ffrindiau newydd eto yn fuan ac yn annog disgyblion i ymgeisio am y cyfle unigryw hwn. Er ei bod yn noson wlyb ac oer ym mis Ionawr, cawsom noson werth chweil yn gweld Patagonia trwy lygaid y bobl ifanc. Diolch yn fawr i Owain a Joanna a dymunwn yn dda iddynt gyda'u cynlluniau am y dyfodol. Tybed a fydd hyn wedi ysbrydoli rhywrai eraill i ymweld â'r Wladfa?




**MERCHED y WAWR**

Cwm Rhymni

**PRYD (2 gwrs)**

## Bistro 8, Coed Duon

**Dydd Mercher, 21 Mawrth am 1.00**

Danfonwyd bwydlen eisoes - ond os oes chwant ymuno â ni a heb dderbyn bwydlen, cysylltwch trwy e-bost,

Enwau a dewisiadau i gaynorw555@gmail.com

Llun, 5ed o Fawrth.

Blaendal o £5

# Ysgol Gymraeg Caerffili

## Gwyddbwyll i Ferched



*Dyma Gwenan Evans yn dal ei thlws*

Casglodd merched o 6-16 oed yng nghanolfan gymunedol y Twyn ar ddydd Sadwrn 27ain o Ionawr ar gyfer Cystadleuaeth Gwyddbwyll i Ferched. Teithiodd un ferch fach o ogledd Cymru er mwyn cymryd rhan.

Mae tim gwyddbwyll brwdfrydig iawn gan Ysgol Gymraeg Caerffili sy'n dysgu gyda chymorth y gwirfoddolwr John Thornton. Llongyfarchiadau mawr i Gwenan Evans ddaeth yn gydradd drydydd yn y gystadleuaeth dan 8. Bu dathlu mawr wrth i Kirby Paul ddod yn gydradd gyntaf, gyda Mili Lewis ac Alice Todd yn gydradd drydydd yn y gystadleuaeth dan 11.



*Alice, Kirby a Mili  sydd yn y llun*

Mae clwb gwyddbwyll Caerffili yn cwrdd yn neuadd gymunedol y Twyn bob nos lun am 6.30.

## Yr Holocaust



Ddydd Sadwrn y 27ain o Ionawr oedd Diwrnod Cofio'r Holocaust. Eleni, cynigodd Ysgol Gymraeg Caerffili gefnogi wrth ddarllen yn ystod Gwasanaeth Gofio yn Nhŷ Penallta, Ddydd Gwener y 26ain.  Rhaid cydnabod aeddfedrwydd a dealltwriaeth plant mor ifanc yn trafod y pwnc yma. Ar y dudalen nesaf gwelir gwaith celf a cherddi a gwblhawyd gan blant y Clwb Clecs yn ystod mis Ionawr. Gosodwyd arddangosfa o'r gwaith yma ym mhrif fynedfa Tŷ Penallta ar ddiwrnod y gwasanaeth a'r wythnos ganlynol. Effeithiwyd ac ysbrydolwyd y plant gan lun o gatiau Auschwitz a'r neges "Arbeit Macht Frei", mae gwaith yn eich rhyddhau; gwelir hyn yn eu lluniau a cherddi.

Mynychodd trawsdoriad eang o drigolion Caerffili y gwasanaeth dan arweiniad Maer Caerffili, Cynghorwyr, Swyddogion ac Arweinwyr y Cyngor. Cafodd tri disgybl o Ysgol Gymraeg Caerffili y fraint o ddarllen yn ystod y gwasanaeth. Darllenodd Mili Lewis ac Alice Todd gerddi Cymraeg a Saesneg, a darllenodd Daniel Szczuka gerdd enwog yn trafod yr Holocaust mewn Pwyleg. Gwelir y tri yn y llun, o flaen arddangosfa o waith y plant, gyda Maer Sir Caerffili ac Is Arweinydd y Cyngor.




## Why?

Why do these things
Happen to us?
One wrong thing,
And that's it.

If you're born without an arm or a leg,
Your life is over.
What would've happened
If I was born without an arm or a leg?

I am lucky,
With blonde hair and blue eyes,
I am also a very tall person.

But why did Hitler choose
To be the bad guy?
No-one will ever know the reason why.

*Mili Lewis*



*Bethan Williams*





*Osian Shipp*




*Cameron Roberts*

Annwyl Gyfaill,

Ddechrau mis Mawrth mae'n wythnos aelodaeth Cymdeithas yr Iaith Gymraeg, ac felly dyma anfon gair i ofyn i'ch darllenwyr ymaelodi er mwyn cefnogi'r Gymraeg.

Ers mwy na hanner can mlynedd mae Cymdeithas yr Iaith wedi bod yn brwydro i sicrhau dyfodol i'r iaith. Rydym wedi ennill llawer ond mae ffordd bell iawn i fynd cyn cyrraedd y nod. Mae Llywodraeth Cymru wedi cytuno i nod y Gymdeithas o greu miliwn o siaradwyr Cymraeg, ond heb ymrwymo i'r camau gweithredu mwy manwl fydd yn sicrhau'r miliwn. Bydd y blynyddoedd nesaf yn hollbwysig o ran sicrhau dyfodol mwy cadarn i'r Gymraeg o safbwynt iechyd, darlledu, addysg a llawer iawn mwy.

Er mwyn llwyddo, mae angen rhagor o aelodau ar Gymdeithas yr Iaith ym mhob rhan o'r wlad. Mae modd i chi wneud gwahaniaeth ac felly dyma ni'n gofyn i chi am eich help. Un weithred fach. Un taliad bach bob mis neu am y flwyddyn fel d'ych chi'n gallu. Bydd yn gwneud gwahaniaeth a byddwch yn gwybod eich bod wedi helpu sicrhau dyfodol i'r iaith. Dewch!

Gallwch ymaelodi â'r Gymdeithas drwy ein gwefan, **cymdeithas.cymru/ymaelodi**, er mwyn talu gyda'ch cerdyn banc, neu mae croeso i chi dalu trwy siec at Gymdeithas yr Iaith Gymraeg, Ystafell 5, Y Cambria, Rhodfa'r Môr, Aberystwyth, SY23 2AZ. Mae croeso i chi ein ffonio ar 01970 624501 hefyd, am fwy o wybodaeth neu i drefnu aelodaeth dros y ffôn.

Mae angen eich cefnogaeth er mwyn i ni allu parhau i frwydro dros ddyfodol mwy cadarn i'r iaith.

Ewch ati heddiw i ymaelodi. Os na wnewch chi, pwy wneith?

Yn gywir,

Steffan Webb Swyddog Aelodaeth Cymdeithas yr Iaith Gymraeg

## Mater Tywyll: Y Bydysawd Cudd gan Cari Powell

Cafodd Cymdeithas Wyddonol Cymry Caerdydd sgwrs ddiddorol iawn gan Cari Powell, myfyriwr ymchwil yn Adran Ffiseg Prifysgol Abertawe am fater tywyll. Dyma'r stwff rhyfedd sydd yn gyfrifol am tua chwarter más y bydysawd - ond dydyn ni ddim yn gwybod beth yw e! Ond cyn mentro i'r gofod pell clywsom ychydig am Cari. Mae hi'n dod o Flaendulais, Cwm Nedd; derbyniodd ei haddysg gynradd yn lleol ac uwchradd yn Ystalyfera. Enillodd ei gradd gyntaf mewn Astroffiseg yn Aberystwyth ac yna aeth i Abertawe i ennill gradd meistr ar chwyddiant cosmolegol. Ar hyn o bryd mae'n gwneud ymchwil ar gyfer doethuriaeth mewn mater tywyll. Mae hi wedi bod yn brysur yn siarad ar hyd a lled Cymru ar y testun yma gan gynnwys yn ei hen ysgol yn Ystalyfera ac ar y rhaglen 'Prynhawn Da' ar S4C.

Y cwestiwn cyntaf yw: 'Beth yw mater tywyll?' Ar hyn o bryd yr ateb yw 'Does neb yn gwybod!' Ond mae tystiolaeth gryf bod rhywbeth anweledig yn tynnu ar bethau gallwn eu gweld trwy rym disgyrchiant. Mae nifer o enwau mawr y byd seryddol wedi amau bod yna fydysawd cudd; disgrifir Fritz Zwicky o'r Swistir fel tad mater tywyll. Yn 1933 mesurodd fás nifer o alaethau mewn clwstwr yn y patrwm sêr 'Coma' yn ôl eu symudiadau a gwelodd fod ei gyfanswm yn gannoedd o weithiau yn fwy na'r hyn gallodd ei weld. Yn fuan wedi hynny, daeth nifer o achosion eraill i'r golwg lle roedd yn rhaid bod rhyw gyrff cudd yn cadw galaethau a chlwsterau o alaethau at ei gilydd.

Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd
3–11 Awst 2018

## Apêl am gyfraniadau a gwobrau

Gyda chwta chwe mis i fynd, mae gwaith trefnu Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd a gynhelir rhwng 3 - 11 Awst eleni ym Mae Caerdydd yn prysuro ymlaen.

Mae cannoedd o wirfoddolwyr wedi bod yn gweithio'n ddygn ar y testunau yn ogystal â'r myrdd o weithgareddau cymunedol sydd wedi ac yn cael eu trefnu i godi arian tuag at y £320,000 a osodwyd fel nod i'r gronfa leol, sef cyfraniad Caerdydd i'r gost o £4 miliwn a mwy y flwyddyn sydd i gynnal yr ŵyl.

Medd Ashok Ahir, Cadeirydd y Pwyllgor Gwaith, "Mae'r apêl ariannol yn mynd yn dda, ac yr ydym wedi pasio £200,000 gyda throad y flwyddyn newydd. Diolch yn fawr i bawb sydd wedi cefnogi hyd yma. Beth sydd ei angen yn awr yw un ymdrech fawr dros y misoedd nesaf i sicrhau ein bod yn cyrraedd y nod ariannol, i'n galluogi i gynnal Prifwyl yma yng Nghaerdydd fydd yn cwrdd â disgwyliadau'r miloedd o ymwelwyr ddaw o bob rhan o Gymru a thu hwnt fis Awst."

Yn ogystal â chyfrannu, mae unigolion a sefydliadau yn medru cynnig gwobr ariannol gyda rhai yn dymuno gwneud hynny er cof am rywun arbennig.  Mae rhoi gwobr yn ffordd syml ond hynod effeithiol o gefnogi'r Eisteddfod Genedlaethol - tybed oes gennych chi ddiddordeb mewn cyfrannu ond ddim yn siŵr sut i fynd o'i chwmpas hi?

Mae cynnig gwobr yn rhwydd, gellir cysylltu â Swyddfa'r Eisteddfod drwy dudalen Rhoi Gwobr dan adran 2018 y wefan www.eisteddfod.cymru; dros y ffôn ar 0845 40 90 400 neu e bostio gwyb@eisteddfod.org.uk gyda'r manylion perthnasol.

Mae gwobrau ariannol ar gael i'w cyfrannu ymhob adran o'r Eisteddfod gan amrywio o £15 i £5,000! Mi fydd pob cyfraniad o £50 a mwy a dderbynnir cyn diwedd Ebrill yn cael ei gydnabod yn y Rhaglen.

Diolch ymlaen llaw am bob cefnogaeth.  Am y wybodaeth ddiweddaraf am yr Eisteddfod Genedlaethol gan gynnwys manylion y cystadlaethau, Maes Carafanau a gwirfoddoli yng Nghaerdydd, ewch draw i www.eisteddfod.cymru

Dyfeisiwyd nifer o ddamcaniaethau i esbonio y ffenomen ryfedd yma, gan ddechrau gyda gwrthrychau mawr fel tyllau duon, sêr niwtron, planedau mawr neu sêr bychain. Ond er chwilio, ni ddaeth digon ohonynt i'r golwg. Bu rhaid dyfeisio gronynnau egsotig, tua maint y protonau sydd yng nghanol atomau, sydd yn effeithio yn wan iawn ar fater cyffredin. Ond parhau mae y chwilio am y gronynnau yma hefyd. Yn olaf soniodd Cari am y gronynnau llai fyth, o'r enw Acsionau; hyn yw maes ei ymchwil damcaniaethol hi. Mae nifer o arbrofwyr wrthi ar hyn o bryd yn chwilio am y rhain; mae Cari yn gweithio ar y fathemateg all arwain at ffyrdd eraill o ddarganfod yr ateb i'r dirgelwch cosmig hwn.

Yn olaf, gellir cael mwy o fanylion ar y maes yma mewn erthygl ysgrifennodd Cari i gylchgrawn ar-lein diddorol a dwyieithog o'r enw parallel.cymru.

Ewch i parallel.cymru ar y we i ddarllen mwy.

Rhys Morris


# Colofn Dafydd Islwyn

Bu farw Bobi Jones ddydd Mercher, yr 22ain o Dachwedd y llynedd. Pan glywais y newyddion trist cofiais bedwar peth amdano. Cofiais mai ef oedd awdur "Crwydro Môn", y bedwaredd gyfrol yn y casgliad gwerthfawr, "Cyfres Crwydro Cymru". Cyhoeddwyd hi yn 1957 ar gyfer y Genedlaethol yn Llangefni, Sir Fôn y flwyddyn honno. Roeddwn ar ben fy nigon pan ddarllenais iddo ymweld â Rhoscefnhir, fy milltir sgwâr. Treuliodd amser yn Y Wigoedd, cartref John Jones, ei wraig Mrs Sarah Jones a'i fab Emyr Jones - cyfeillion agos i'm rhieni. Aelwyd ddiwylliedig groesawgar. Roedd Dyfnan, enw barddonol John Jones, yn englynwr cydnabyddedig. Roedd Bobi Jones yn athro yn Ysgol Gyfun Llangefni pan grwydrodd Sir Fôn, fel y galwyd yr ynys y cyfnod hwnnw. Fe dynnodd ef flew o drwynau Monwysion gyda'i gyfrol.

Flynyddoedd ynghynt fe dynnodd flew o drwyn Yr Athro W. J. Gruffydd (1881-1954). O ganlyniad, wrth feirniadu cystadleuaeth y goron yn Y Genedlaethol, Aberystwyth, fe wnaeth Gruffydd gamgymeriad dybryd. Testun y gystadleuaeth oedd "Y Creadur" neu unrhyw chwedl Gymreig. Roedd Euros Bowen o blaid coroni pryddest Efnisien ond gan i W. J. Gruffydd feddwl mai Bobi Jones oedd ei hawdur, beirniadodd y bryddest yn hallt ac nid oedd o blaid ei gwobrwyo. Cefnogwyd ef gan David Jones, Blaenplwyf, Aberystwyth, y trydydd beirniad. Erbyn diwedd wythnos yr eisteddfod cafwyd gwybod mai Harri Gwynn oedd awdur y bryddest, "Y Creadur". Mae hi bellach yn cael ei rhestri ymhlith y pryddestau gorau nas coronwyd.

A oedd Bobi Jones wedi cystadlu am y Goron yng Nghaerffili ddwy flynedd ynghynt? Y flwyddyn honno, 1950, gosodwyd tri thestun i'r pryddestwyr: Ifor Bach, Y Gaethglud neu Ddifodiant. Tybiodd y Parchedig D. Llewelyn Jones, Llanidloes, mai Bobi Jones oedd "Y Cnawd Hwn", Drama Farddonol oedd ei bryddest, "Difodiant". Gosododd y tri beirniad hi ymhlith y bedair orau yn y gystadleuaeth. Euros Bowen goronwyd ac mi roedd Harri Gwyn yn un o'r pedwar hefyd.

Anodd credu y bydd hi'n hanner canrif ers is-etholiad Caerffili a gynhaliwyd ar y 18fed o Orffennaf 1968. Un fu'n gweithio yn swyddfa dros dro Plaid Cymru ar sgwâr Bargoed oedd Bobi Jones. Cofio cerdded i mewn i'r swyddfa a'i weld yn clercio wrth y ddesg.



Wrth adael y swyddfa clywed un pleidiwr lleol amlwg yn dweud wrth un arall mai aelod o'r heddlu cudd oedd Bobi Jones! Na, ni wnes chwerthin yn uchel, dim ond synnu yn dawel fach nad oedd un ohonynt yn adnabod un o feirdd Cymru!

Yn y chweched gyfrol o'i gerddi, "Allor Wydn", Llyfrau'r Dryw 1971, cyhoeddodd ei gerdd, un deg saith caniad, "Adroddiad Answyddogol o'r Drefedigaeth Olaf" (yn ystod 1967-1970). Yn ei ail ganiad mae'n dwyn i go' y tair is-etholiad a ddeffrodd Cymru mewn dwy flynedd, Caerfyrddin 1966, hyd Gaerffili 1968. Meddai'r bardd yn ei ganiad cyntaf:

"Yn sydyn rydyn ni'n bobol..
Edrychwn ar ein gilydd, mewn rhyfeddod, wedi'r nos
Faith Brydeinig lafurus.
Rwyt i'n fyw........"

Yn yr ail ganiad mae'r bardd yn synhwyro'r newid:

"Llangadog, Tir-phil a Threorci, hen fannau
Ond bod rhywrai wedi dechrau'u caru....
Senghenydd, Sain-Clêr a Threalaw, dyma'r arwyddion
Ffyrdd: anwylwn a rhwbiwn ein ffroenau
Ynddynt. Hen enwau, ond bod rhywrai wedi dechrau'u
Hebychu â chlychau: Bargoed, Cefneithin.
Ow! Ynddynt y mae mwy na phethau.
Mwy na thir pan fo carwyr arno;....."

Wrth ddarllen y rhestr o Gymry amlwg a fu farw y llynedd cofiais am soned J. Eirian Davies, Yr Wyddgrug bryd hynny, am golledion 1962 a'i llinell ysgytwol,

"Fel pe na bai eu bath eisoes yn ddigon prin
I wneud i'r galon golli curiad."

# Colofn y Dysgwyr

**gan Ann Lewis**

Gŵyl Dewi Hapus i chi i gyd! Dyma gerdd gan Eifion Wyn am ddathlu Gŵyl Dewi, cerdd a oedd yn boblogaidd iawn yn y gorffennol. Mae'r bardd yn dweud dylai pawb ddathlu ar Ddydd Gŵyl Dewi a bod yn falch o fod yn Gymro. Mae caru eich gwlad yn bwysig; dyw gwisgo cenhinen ddim yn ddigon, rhaid i'r genhinen fod yn ein calon hefyd.

**Os Wyt Gymro**


Os wyt Gymro hoff o'th wlad,
A hoff o'th dadau dewrion,
Cadw ŵyl er mwyn dy hâd –
Ni waeth beth ddywed estron, -
Gwisg genhinen yn dy gap,
A gwisg hi yn dy galon.


Os wyt Gymro hoff o'th Sant,
A hoff o'r cysegredig;
Cadw ŵyl, er mwyn dy blant,
I Ddewi, ŵyr Ceredig; -
Cas yw'r gŵr nas câr ei wlad,
Boed dlotyn neu bendefig.



*yn y gorffennol : in the past* *dathlu : celebrate* *cenhinen : a leek*
*dewrion : brave* *cadw ŵyl : celebrate the occasion* *dy hâd : your descendants*
*cysegredig : consecrated* *ni waeth beth ddywed estron : never mind what foreigners say*
*ŵyr : grandson* *nas câr : who does not love*
*boed dlotyn neu bendefig : whether he be a pauper or an aristocrat*

Dyma'r atebion i'r posau ar dudalen 5. Sawl un gawsoch chi'n iawn?



*Rydym yn bwriadu rhoi copi o Cwmni mis Chwefror i dîm CorCenCC (Corpws Cenedlaethol Cymraeg Cyfoes – [www.corcencc.cymru](www.corcencc.cymru)) i'w gynnwys yn y corpws maent yn ei lunio, sef casgliad o'r defnydd o Gymraeg cyfoes. Caiff pob erthygl ei hanonymeiddio'n llawn felly bydd unrhyw enwau neu gyfeiriadau personol yn cael eu dileu. A fyddech cystal â nodi eich bod yn fodlon i'ch erthygl gael ei chynnwys yn CorCenCC, wrth ei hanfon os gwelwch yn dda? Wedyn, dywedwn wrth dîm CorCenCC pa erthyglau i'w cynnwys yn y corpws.*




**Clwb Darllen Cwm Ni**

Llawr Cyntaf

**Llyfrgell Newydd Caerffili**

2:00 o'r gloch

Mawrth 5ed **Dan Ei Adain**

Ebrill 9fed **Y Pla**

Mai 14eg **Dewi Llwyd**

Mehefin 4ydd **Syllu ar Waliau**

**penneyje961@gmail.com**

***Croeso Cynnes i Bawb***


Bob Nos Fawrth

7:00yh

## Côr Cwm Ni

Capel Bryn Seion,
Ystrad Mynach

*Croeso i Aelodau Newydd*




**Eisiau ymarfer eich Cymraeg?**

Ymunwch â ni ar 2-il ddydd Gwener y mis

Llyfrgell Caerffili ar yr 2-il lawr

2 o'r gloch

Cyfarfodydd nesa: 9fed o Fawrth

Byddwn ni'n darllen

"Pobol i'w Hosgoi" gan Ruth Richards

Cofiwch hefyd am:

Y bore coffi ym Medwas, Caffi'r Graig

bob dydd Llun o 10.30 ymlaen

A'r bore coffi yn y Malcolm Uphill

(Wetherspoons), Caerffili

bob dydd Mawrth o 10 o'r gloch ymlaen

Cyswllt: [penneyje961@gmail.com](mailto:penneyje961@gmail.com)




www.iwcs.cymru

**Sesiynau bob**

**Nos Fawrth,**

**Clwb Rygbi Penallta**

**6.00 – 8.00**

**£5 y sesiwn**

**07745927308**

**TACSI GORSAF CAERFFILI**

Cysylltwch â KEITH 022 362364 neu 07914 355195

facebook.com/tacsigorsafcaerffili



**Defnyddiwch Gardiau Debyd/Credyd**





**Cymraeg mewn Busnes**



**Fel rhan o brosiect newydd gan Menter Iaith Sir Caerffili rydym am gefnogi busnesau lleol i gynyddu eu defnydd o'r Gymraeg yn ogystal â chefnogi'r busnesau hynny sy'n medru darparu gwasanaethau cyfrwng Cymraeg yn lleol.**




mentercaerffili.cymru



# Lluniau'r Misoedd



